# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Mawrth 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4915

## 128

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 2, 4, 5 a 6 gan y Weinidog yr Amgylchedd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 gan y Gweinidog Tai ac Adfywio. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.15

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:**

Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am oblygiadau adroddiad y Comisiwn Hapchwarae ar hapchwarae yng Nghymru?

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Yn sgil y cyhoeddiad heddiw gan Lywodraeth y DU i gynyddu cyflogau dros filiwn o staff y GIG yn Lloegr, a wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogau'r GIG yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.32

Gwnaeth David Melding ddatganiad yn talu teyrnged i'r Arglwydd Crughywel, Nick Edwards.

Gwnaeth Angela Burns ddatganiad am wythnos *Mean Bean Challenge* Tearfund.

Gwnaeth Jayne Bryant ddatganiad yn dathlu cyrhaeddiad Team Oarstruck.

## 5 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.38

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6696** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.83:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 1 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Trafnidiaeth Gymunedol

Dechreuodd yr eitem am 16.30

**NDM6666**

Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau, yn darparu trafnidiaeth ar gyfer pobl sy'n wynebu rhwystrau rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat, yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol a chael mynediad i wasanaethau hanfodol, gan hefyd liniaru materion yn ymwneud ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

2. Yn nodi'r pryder am ymgynghoriad presennol Adran Drafnidiaeth y DU ar drwyddedau trafnidiaeth cymunedol (adran 19/22) ac effaith bosibl hyn ar wasanaethau yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio mewn partneriaeth â'r sector trafnidiaeth gymunedol a chyrff cyhoeddus i sicrhau bod y sector yn gallu parhau yn ei rôl unigryw gan ddarparu dewisiadau trafnidiaeth pwrpasol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, er mwyn sicrhau mynediad i wasanaethau tra bod y broses ymgynghori yn mynd rhagddi;

b) datblygu cynlluniau wrth gefn i liniaru unrhyw effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth drwy wasanaethau bws mini a gyflenwir drwy drwyddedau adran 19 a 22;

c) cyhoeddi strategaeth glir sy'n cydnabod yr agwedd drawsbynciol ar ddarparu trafnidiaeth gymunedol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni nodau strategol Llywodraeth Cymru;

d) darparu sefydlogrwydd sydd ei fawr angen ar gyfer y sector drwy symud tuag at gytundebau ariannu tair blynedd i alluogi sefydliadau i ddatblygu a bwrw ymlaen â chynlluniau, i sicrhau mwy o gynaliadwyedd a dull mwy strategol o ddarparu gwasanaethau; ac

e) sicrhau ymgysylltiad â phartneriaid perthnasol a rhanddeiliaid ledled Cymru i lywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, ac i sicrhau dealltwriaeth yn y sector o safbwynt Llywodraeth Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Gohiriwyd tan 18 Ebrill

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.17

## 9 Dadl Fer

Ni chyflwynwyd cynnig.

**Am 17.18, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 15 munud. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailgynnull ar gyfer dadl Cyfnod 3 y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).**

## 10 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.33

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, cafodd y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 1 | 33 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 1 | 1 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 35 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 35 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 1 | 5 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 6 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 6 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 6 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 6 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

## Datganiad y Llywydd

Nododd y Llywydd y gallai, yn unol â Rheol Sefydlog 26.50A, gadarnhau nad oedd darpariaethau'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), yn ei barn hi, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

## 11 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.12

Un unol â Rheol Sefydlog 26.67, gwnaeth Arweinydd y Tŷ ddatganiad ei bod wedi derbyn gorchymyn gan Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw i roi gwybod i'r Cynulliad fod y ddau, ar ôl cael gwybod am gynnwys y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), wedi rhoi eu cydsyniad i'r Bil.

Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 1 | 13 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.23

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018**